





# Llyfr Gwaith i Blant



I blant  
3 i 7  
oed



# Pam wnaeth ein babi ni farw?


---

Weithiau, mae babanod yn cael eu geni'n rhy fuan am nad ydyn nhw wedi tyfu'n iawn ym mol mam.

Weithiau, 'dyw babanod ddim yn barod i gael eu geni ac maen nhw'n fach iawn, iawn, ac felly yn methu byw.

Weithiau, mae eu corff wedi rhoi'r gorau i weithio. Dyw hi ddim yn bosib gwneud dim am hyn.

Dydyn nhw ddim yn gallu teimlo dim, dydyn nhw ddim mewn poen.



Does yna ddim byd y gallet ti fod wedi'i wneud.

Does yna ddim bai arnat ti.

Byddi'n eu cofio am byth



# Sut wyt ti'n teimlo?

Pan fydd rhywun yn marw, fe allwn ni deimlo amryw o deimladau. Weithiau rydyn ni'n eu teimlo ar yr un pryd, ac weithiau dydyn ni ddim yn teimlo dim byd o gwbl. Fe allwn ni deimlo'n hapus ac yn drist ar yr un pryd.

Efallai y byddi di'n teimlo fel hyn:



Yn flin



Yn hapus



Yn poeni




Yn drist



Yn ddryslyd



Yn euog



# Sut wyt ti'n teimlo heddiw?


Tynna lun neu ysgrifenna sut rwyt ti'n teimlo.

Efallai y byddi di'n teimlo'n drist ac yn hapus neu'n

boenus ac yn wirion ar yr un pryd!!

---





# Beth sy'n dy wneud di'n hapus?



Tynna lun o'r pethau sy'n dy wneud di'n hapus. Gallai fod yn liwiau llachar, yn anifail anwes, yn fwyd, yn berson, yn gêm, yn hwiangerdd... gallai fod yn unrhyw beth!

---





# Tynna lun o'r bobl rwyf ti'n eu caru



Mae'r bobl yma i gyd yn dy garu di ac yma i ti.  
Siarada gyda nhw pryd bynnag y byddi di'n teimlo'n drist.

---

